# Cronfa Waddol Gymunedol Casnewydd

**Meini prawf cyllid: sefydliadau cymunedol a gwirfoddol**

Sefydliad Cymunedol Cymru

Mae Cronfa Waddol Cymunedol Casnewydd, sydd yn cael ei reoli a'i hyrwyddo gan Sefydliad Cymunedol Cymru, yn ymabrel o gronfeydd sy'n ymroddedig i wella addysgu a chryfhau cymunedau ledled Sir Casnewydd, sydd y tu allan i ddarpariaeth statudol.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn dangos yr effeithiau cadarnhaol y byddant yn eu cael ar y bobl sy'n byw yn y gymunedau hyn a sut maent yn cwrdd ag amcanion y rhaglen a restrir isod. Sef, annog, cefnogi a hyrwyddo cyrhaeddiad addysgol anstatudol a dysgu gydol oes gan gynnwys blynyddoedd cynnar, ac i wella iechyd a lles i gryfhau perthnasoedd ac adeiladu cydlyniant cymunedol.

Rhaid i'r prosiect gyrraed **o leiaf un o'r themau** canlynol:

- prosiectau sy'n cefnogi rhieni ifanc
- prosiectau sy'n cefnogi datblygiad plant yn y blynyddoedd cynnar
- prosiectau ysgol sy'n cefnogi datblygiad plant gan gynnwys iechyd a byw'n iach
- prosiectau cyrhaeddiad addysgol gan gynnwys dysgu drwy oes
- prosiectau sy'n hyrwyddo cymunedau cynhwysol a saff
- prosiectau ieuenctid i annog gwelliant iechyd a lles
- prosiectau sy'n lleihau unigrwydd hen bob

## Grantiau ar gael

Nod allweddol y gronfa yw annog a chefnogi addysg a gweithgaredd cymunedol ar lawr gwlad yng Nghasnewydd. Gellir ymgeisio am grant o £200 - £2,000 y flwyddyn ar gyfer gweithgareddau, mân wariant cyfalaf, neu tuag at gostau craidd.

## Pwy all wneud cais?

Grwpiau yn y gymuned ac a reolir yn lleol sy'n annog gwirfoddolwyr, Cymdeithasau Rhieni ac Athrawon, neu ysgolion ar gyfer prosiectau/mentrau a ddaw y tu allan i ddarpariaeth statudol (ee clybiau ar ôl ysgol neu glybiau brecwast, prosiectau garddio, ac yn y blaen).



# Sut i wneud cais?

Rhaid i bob ymgeisydd gwblhau ffurflen gais sydd ar gael ar ein gwefan.

Cofiwch:

- ni roddir grantiau'n ôl-weithredol h.y. ar gyfer costau sydd eisoes wedi codi cyn derbyn ein
- llythyr yn cynnig grant a chyn llofnodi a dychwelyd yr amodau a thelerau
- nid yw grantiau ar gael i gefnogi codi arian ar ran grwpiau ac elusennau eraill.
- rhaid gwario’r grant yn llawn o fewn un flwyddyn o dderbyn ein llythyr o gynnig
- rhaid i'r cais ddangos angen clir am gymorth ariannol, caledi ariannol neu anghenion
- cymorth ychwanegol

# Cyllid Blwyddyn Lluosog

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw hi i grwpiau allu cynllunio ar gyfer y dyfodol a bod cael cyllid diogel yn gallu rhoi'r hyder a'r sicrwydd i chi ddatblygu eich prosiect dros y tymor hir. Mae Cronfa Waddol Cymunedol Casnewydd  bellach yn cynnig cyfle i grwpiau wneud cais am gyllid aml- flwyddyn o hyd at dair blynedd ond bydd hefyd yn parhau i gynnig cyllid prosiect 1 flwyddyn neu eitem gyfalaf bach.

Rydym yn gobeithio gallu gwneud o leiaf un grant tair blynedd y flwyddyn. I gael eich ystyried am grant tair blynedd, cwblhewch adran ychwanegol y ffurflen gais sy'n nodi sut rydych yn bwriadu datblygu eich prosiect dros y cyfnod o gyllid y gwneir cais amdano. Bydd eich cais yn dal i gael ei ystyried am gyllid blwyddyn os nad ydych yn llwyddiannus gyda grant tair blynedd.

Rydym hefyd yn cydnabod yr her o ddod o hyd i gyllid craidd, yn enwedig yn y tymor hir. Gall grwpiau ymgeisio am gyllid tuag at gostau craidd am hyd at dair blynedd, ar yr amod y gall y grŵp ddarparu cyfrifon am o leiaf y 12 mis diwethaf ac mae'r swm y gwneir cais amdano yn llai na 50% o'ch trosiant blynyddol. Er enghraifft, i wneud cais am grant o £1,000 y flwyddyn, dylai eich incwm blynyddol fod o leiaf £2,000

# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gofyn i sefydliadau yng Nghymru ystyried effeithiau tymor hir eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl a cymunedau a gyda'i gilydd a rhwystro problemau parhaus rhag codi, megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.




Rydym yn awyddus i annog sefydliadau i feddwl nid yn unig am y gymuned ble maen nhw'n byw ac yn gweithio ynddi, ond hefyd sut mae'u gwaith yn gydnaws â ac yn cyd-fynd â gwasanaethau a gweithgareddau grwpiau a sefydliadau eraill, rhai gwirfoddol a rhai statudol.

Fe hoffen ni i chi ystyried sut y gallai'ch sefydliad weithio gydag eraill er mwyn ychwanegu gwerth a gweithio mewn partneriaeth yn hytrach na chystadlu. Cofiwch egluro yn eich cais eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn ogystal ag ar gyfer y presennol. Fe hoffen ni weld sut mae grwpiau'n gweld effeithiau tymor hir eu penderfyniadau er mwyn gallu gweithio gyda, ar y cyd, ag eraill.